| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 14 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion |
| **AELODAU'R YMCHWILIAD** | Cynghorwyr:<br><br>Cai Larsen (Cadeirydd)<br>Dawn Lynne Jones<br>Gwynfor Owen<br>Richard Glyn Roberts<br><br>Aelod Cyfetholedig:<br><br>Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon) |
| **SWYDDOG ARWEINIOL YR YMCHWILIAD** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |

1. Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu ar 13 Chwefror 2025 a chyflwynir yr Adroddiad Terfynol drafft i sylw'r Aelodau.

2. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu i ystyried cynnwys yr Adroddiad ac i wneud sylwadau, a gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol gan gynnig unrhyw welliannau a chymeradwyo'r Adroddiad.

3. Gofynnir i'r Aelod Cabinet Addysg am ei ymateb i'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion, gan gadarnhau os yw'n derbyn yr argymhellion mewn egwyddor ac y bydd yn cyfleu'r argymhellion sydd yn benodol ar gyfer ysgolion a Llywodraeth Cymru er eu sylw.

4. Pe cymeradwyir adroddiad yr ymchwiliad, bydd angen dod i benderfyniad ar pryd i dderbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar weithrediad fesul argymhelliad.

5. Mae Cadeirydd yr ymchwiliad wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod y Bwrdd Cynllun Ymateb ar 15 Gorffennaf 2026, er mwyn adrodd ar y drafodaeth yn y cyfarfod hwn a phenderfyniad y Pwyllgor. Bydd Swyddog Arweiniol yr ymchwiliad craffu hefyd yn mynychu'r cyfarfod.